



Y Gwn

Ni chafodd Gwyn ei siomi.

Yn ôl ei arfer, cofiodd Siôn Corn am bopeth

o'r beic i'r Batman,

o'r gemau i'r gwn.

Un plastig gwyrdd

A'i fwledi rwber yn anelu'n farwol.

Y bychan pumlwydd, yn ei ddillad milwr

Yn ymosod yn ei grwcwd

a lladd ei chwaer, ei nain a'i daid.

Y tri yn gelain ger y goeden Nadolig

Ar ddydd Gŵyl Tangnefedd.

Briwiau ei rieni'n gwaedu dros lawr y gegin.

Cyn i bawb atgyfodi'n deulu dedwydd

I fwynhau'r twrci!

Gwn metel Gwyn yn llonydd

A'r bwledi dur yn gorffwys

O barch i'r Dolig

Cyn deffro eto fory yn barod i ladd.



Llythyr apêl Unicef

Annwyl ffrind,

Bum mlynedd yn ôl fe es i i wersyll Amuru yn Uganda. Yno roedd tua 50,000 o bobl digartref yn dilyn y gwrthdaro yng ngogledd Uganda. Daeth y gwrthdaro rhwng byddin y llywodraeth a'r Lord's Resistance Army (LRA) i ben yn 2005, ond yn y deunaw mlynedd o wrthryfela cafodd 10,000 o blant - rhai mor ifanc â saith neu naw oed eu gorfodi i ymuno â'r LRA BOB BLWYDDYN.

Bûm yn siarad ag un ferch (fe alwa i hi yn Sarah) oedd wedi cael ei herwgipio o'i chartref gyda'i brawd. Saith oed oedd hi ar y pryd ond doedd hi ddim yn gwybod ei hoed pan welais i hi oherwydd roedd ei phapurau wedi mynd ar goll. Cafodd y ddau eu gorfodi i orymdeithio yn droednoeth gyda llwythi trymion ar eu cefnau dros y ffin i Sudan, taith sy'n cymryd pedwar diwrnod mewn car.

Buan y cafodd Sarah a'i brawd eu gwahanu a welodd hi byth mohono wedyn. Fel merched eraill yn yr un sefyllfa â hi cafodd ei gorfodi i fod yn un o wragedd swyddog yn y fyddin. Yn dilyn cael ei threisio'n gyson syrthiodd yn feichiog yn bymtheg oed. Achubodd hyn ei bywyd, mewn gwirionedd, oherwydd cafodd ei gollwng yn rhydd a llwyddodd hi a merch arall i ddychwelyd yn ôl i Uganda.

Y peth cyntaf a wnaeth oedd mynd i ganolfan Unicef. Yno cafodd ofal meddygol a chysgod a bwyd. Cafwyd hyd i'w rhieni ac roedden nhw wrth eu bodd yn ei chroesawu gartref.

Yn sicr, mae'r hyn sy'n digwydd i blant sy'n cael eu gorfodi i ymladd yn dangos dyn ar ei waethaf. AC MAE'N DIGWYDD HEDDIW!

Dyna pam rydw i'n erfyn arnoch chi i gyfrannu rhywbeth at Apêl Milwyr o Blant.

Gyda'n help ni, gall yr Apêl wneud byd o wahaniaeth!

John Phillips.

**Mae holl waith Unicef gyda phlant sy'n
filwyr yn cael ei ariannu gan gyfraniadau.**



**Plis, byddwch
mor hael ag y
gellwch!**

Tecstiwch

CHILD


i 70030

**i gyfrannu pum
punt.**

I BLE BYDD EICH ARIAN YN MYND?



- £6 yn talu am driniaeth achub bywyd i blentyn sy'n dioddef o ddolur rhydd, malaria neu pneumonia.
- £15 yn talu am addysg i blentyn sydd wedi cael ei achub o grŵp milwrol gan gynnwys yr holl lyfrau a phapur fydd ei angen.
- £25 yn talu am holl anghenion y plentyn pan gaiff ei achub e.e. dillad, brws a phast dannedd, sebon, blanced, matres a rhwyd mosgito.
- £62 yn talu am hyfforddiant gwaith.
- £103 yn talu am hyfforddi athro i helpu plant fu'n filwyr i barhau gyda'u haddysg.
- £150 yn talu am gefnogaeth seicolegol i blentyn sydd wedi cael ei achub.
- £300 yn gallu prynu digon o degannau i 50 o blant mewn canolfan ailgynefino ble cant ail ddysgu chwarae eto.
- £516 yn gallu cynnal plentyn am fis mewn canolfan ailgynefino e.e. staff, bwyd, cynghori, hyfforddiant.



War Horse

WAR HORSE
FFILM Y GANRIF!
ADOLYGIAD

Cyfarwyddwr: Steven Spielberg

Cynhyrchwyr: Steven Spielberg a Kathleen Kennedy

Sgript: Lee Hall a Richard Curtis

Seiliedig ar: War Horse gan Michael Morpugo

Actorion: Jeremy Irvine, Emily Watson, David Thewlis, Peter Mullan, Niels Arestrup, Benedict Cumberbatch, Tom Hiddleston, Eddie Marsan, Toby Kebbell, David Kross

Cerddoriaeth: John Williams

Cinematography: Janusz Kaminski

Golygu: Michael Kahn

Stiwdio: Dreamworks Studio, Reliance Entertainment.

Bu'r ffilm War Horse, sydd wedi ei gosod yn y Rhyfel Byd Cyntaf, yn llwyddiant mawr.

Addasiad o nofel Michael Morpurgo ydy'r ffilm ond mae'r sgriptwyr Lee Hall a Richard Curtis wedi benthycu sawl syniad o fersiwn lwyfan Nick Stafford. Fel yn y ddrama honno, nid yw'r ceffyl yn siarad yn y person cyntaf, diolch byth.

Mae'r stori yn dechrau mewn pentref eithriadol o dlws yn Nyfnaint ble mae'r ffermwr Ted Narracott yn prynu ceffyl bywiog o'r enw Joey. Mae Ted yn yfed llawer iawn ond mae actio gwyh Peter Mullan yn dangos nad ydy e ddim yn ddyn drwg. Mae'n chwilio am geffyl i dynnu ei aradr ac mae'n prynu Joey o ran sbeit i'w dirfeddiannwr, (David Thewlis), sydd hefyd eisiau'r ceffyl. Mae mab Ted, Albert, yn addo hyfforddi Joey i dynnu'r aradr ac mae'n benderfynol o wneud ei dad yn falch ohono.

Ac, yn wir, mae Albert, sy'n cael ei bortreadu yn deimladwy iawn gan Jeremy Irvine, yn dofi'r ceffyl ac yn dod yn ffrindiau pennaf gydag e ond maent yn cael eu rhwygo ar wahân. Mae'r teulu yn mynd i fwy o ddyledion ac wrth i'r rhyfel dorri allan yn Ewrop mae Ted yn gweld ei gyfle ac yn gwerthu Joey i'r fyddin. Mae Albert yn torri ei galon. Beth mae ef yn ei wneud tybed? Rhaid gwyllo'r ffilm i gael yr ateb!

Gwylwch hi hefyd i weld sut mae Joey yn ymdopi ag erchyllteroedd y rhyfel a sut mae'n newid bywydau'r bobl mae'n eu cyfarfod. I ddechrau ceffyl capten golygus ym myddin Prydain (Tom Hiddleston) ydyw. Yna mae'n dod o dan ofal dau frawd ifanc o'r Almaen (David Kross a Leonard Carow), ac yn ddiweddarach ffermwr Ffrengig (Niels Arestrup) a'i wyres fywiog, (Celine Buckens). Yn nes ymlaen mae Joey yn cyrraedd y Somme. Yma mae siotiau erchyll o filwyr yn cysgodi yn y ffosydd a'r sieliau'n syrthio fel cenllys arnyn nhw.

Gallai'r olygfa hon ddychryn gwylwyr ifanc ond efallai bod yr olygfa pan fo Joey yn mynd yn sownd wrth weiren bigog yn waeth. Wrth i bigiadau'r weiren rwygo i'w gorff mae milwr ifanc (Tony Keble) yn stopio'r saethu ac yn mynd yno i achub y ceffyl. Dramatig iawn!

Golygfa arall wnaeth greu argraff arna i oedd yr un ble mae dau filwr o'r Almaen yn cael eu saethu am geisio dianc. Mae'r camera wrth ymyl melin wynt ac fel mae'r sgwad saethu yn anelu mae un o hwyliau'r felin yn chwifio'n dawel ar draws lens y camera. Rydym yn clywed crac a'r funud nesaf rydym yn gweld y cyrff yn syrthio i'r llawr. Ond dydyn ni ddim yn gweld y lladd. Gwyh iawn!

O'r dechrau cyntaf mae'r golygfeydd yn anhygoel. Er bod teulu Albert yn dlawd mae'r golygfeydd crand gyda Joey yn eu gwneud yn arbennig. Y tirwedd hardd a cherddoriaeth gyfoethog Delius, Elgar a Vaughan Williams sy'n gwneud hyn. Mae'r olygfa o Albert a Joey yn aredig tir diffaith a'i droi yn gae ffres, gwyrdd yn fythgofiadwy.

Fel yn y nofel, Joey yw'r arwr. Mae dwy olygfa anhygoel o gyrch y cafalri. Yn yr ail un caiff Joey ei gipio gan yr Almaenwyr. Rhaid ei gwyllo i'w gwerthfawrogi'n llawn.

Yn wir, mae'r ffilm yn wych, mae'n sentimental ac mae'n fendigedig o hen ffasiwn! Unwaith eto mae Spielberg wedi llwyddo i dynnu tannau'r galon.

Adolygiad gan Jeremy Thomas.



Cysgod Rhyfel

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd byddai awyrennau rhyfel yn hedfan uwchben rhannau gwledig o Gymru ar eu ffordd i fomio dinasoedd fel Lerpwl ac Abertawe. Weithiau byddent yn gorfod gollwng eu bomiau ar y mynyddoedd ac weithiau byddai'r awyrennau yn syrthio. Hanes hynny yn digwydd yn Nyffryn Nantlle ger Caernarfon sydd yma.

Dynion y fyddin ydy 'bechgyn dillad glas Llaniago'.

'Hei, Emyr!' daeth Robat John i'n tŷ ni fel milgi ddydd Sadwrn a minnau ar ganol fy nghinio. 'Mae yna Spitffeiwr wedi syrthio ar ben Mynydd Gaer. Brysia neu mi fydd hogia'r pentra wedi mynd â'r darnau gorau i gyd.'

Cipiais damaid o frechdan oddi ar y plat ac i ffwrdd â ni ar draws y caeau. Roedd nain wedi dweud lawer gwaith mai taro'r mynydd fyddai hanes un ohonynt ryw ddydd a hwythau'n hedfan mor isel, ac yn chwarae mig rhwng y creigiau.

Dwy filltir union oedd o'n tŷ ni i ben mynydd Gaer ac erbyn i ni gyrraedd roeddem allan o wynt yn lân. Tua hanner y ffordd i'r copa daethom ar draws Puw Plisman, yn bustachu dringo, ei helmed ddur ar ei ben a'i gas masg ar ei fron.

Ond erbyn cyrraedd pen y mynydd - siom. Roedd bechgyn dillad glas Llaniago yno o'n blaenau. Wyddwn i ddim pam iddynt drafferthu gan bod yr awyren wedi mynd ar ei phen yn erbyn y graig yn y niwl ac wedi ei malurio yn ddarnau mân. Gorweddai yn un sbloet ar hyd y mynydd a'r unig ddarn gwerth gafael ynddo oedd yr injian, ond roedd rhaff o'i chwmpas i atal neb rhag mynd yn agos ati.

Wedi i Puw Plisman a chriw o hogiau'r pentref gyrraedd, bu pawb wrthi'n ddiwyd yn helpu dynion Llaniago i hel y darnau o'r fawnog a dod â hwy yn bentwr taclus at ymyl yr injian. Doedd neb yn dweud dim os gwnaem ni gadw ambell i ddarn bychan ond bu Idris Felin Isaf yn lwcus ryfeddol yn cael gafael ar bâr o esgidiau peilot, bron yn newydd. Medrodd eu taflu o'r golwg dros y wal heb i neb ei weld ac ymhen rhyw bum munud neidiodd yntau ar eu holau yn slei bach a'u cuddio mewn swp o redyn crin.

'Y peilot ydy hwnna, ysti,' eglurodd Robat John wrth weld Puw Plisman yn helpu un o'r dynion i hel darnau coch, meddal oedd yn debyg iawn i rwber, a'u rhoi mewn sach fach ledr. 'Mae o wedi malu yn rhacs yr un fath yn union â'i eroplên.'

Rhaid ei fod yn dweud y gwir oherwydd doedd dim golwg o'r peilot yn unman, a doedd wiw i'r un ohonom fynd o fewn canllath i'r sach ledr.

Pa aethom tua throed y mynydd y prynhawn hwnnw, yr oedd bron i sachaid o ddarnau Spitffeiar gan y bechgyn i gyd. Yn yr ysgol fore Llun cefais ddeg o farblis am un darn, ugain o gardiau sigaréts am un arall ac am un a smotiau o waed arno cefais baced pump o Wdbeins gan Wil Jôs Ffariar.

Ymhen wythnos union yr aeth Idris Felin Isaf i ben Mynydd Gaer i chwilio am yr esgidiau. Ond pan roddodd hwynt ar ei draed gwelodd fod darn o ffêr a'r gwaed wedi fferru'n gacen arno, yn un ohonynt. Bu'n sâl fel ci ar hyd y ffordd i lawr ac yno mae'r esgidiau hyd heddiw, am wn i.



Dwy Fedal Fictoria Cross heb saethu gwn!

Medal sy'n cael ei chyflwyno am ddewrder eithriadol mewn brwydr ydy Medal y Fictoria Cross. Sut ar y ddaear y gallodd neb ennill dwy fedal heb danio'r un gwn? Wel, dyma i chi hanes Noel Chavasse o Lerpwl.

Pasiodd Noel yn llawfeddyg yng Ngholeg y Drindod Rhydychen, a phan ddechreuodd y Rhyfel Byd Cyntaf yn 1914, ymunodd gyda'r Liverpool Scottish Regiment, fel is-gapten a llawfeddyg. Ym mis Tachwedd cafodd ei gatawd ei hanfon i'r Ffrynt Orllewinol (Western Front, sef llinell flaen y frwydr yng ngwlad Belg a Ffrainc).

Ceisiodd gael cyfleusterau ymolchi i'r milwyr a gwnaeth waith arloesol yn defnyddio pigladau rhag tetanws er mwyn lleihau'r risg o haint oherwydd briwiau.

Roedd hefyd yn credu'n gryf mewn paratoi gofal ysbyty a chyfnod gwella i unrhyw filwr a oedd yn dioddef o iselder ysbryd neu nervous breakdown. Yr adeg hynny roedd salwch felly yn cael ei adnabod fel shell shock ac roedd y milwyr oedd yn dioddef ohono yn cael eu hystyried yn llwfr.

Ym mis Mawrth 1915, fe gymrodd ei gatawd ran yn yr ymosodiad yn Ypres yn Ffrainc, lle cafodd nwy gwenwyn ei ddefnyddio am y tro cyntaf. Erbyn mis Mehefin 1915 dim ond 142 o ddynion allan o'r 829 o ddynion a gyrhaeddodd yr un pryd â Chavasse oedd ar ôl. Roedd y gweddill wedi eu lladd neu wedi eu hanafu'n ddifrifol.

Ym mis Mehefin 1915, bu ei gatawd yn ymladd ym Mrwydr Hooge, yng ngwlad Belg. Gwaith y cynorthwywyr meddygol oedd mynd i dir neb (y rhan o dir rhwng y byddinoedd) yn y nos i chwilio am y dynion oedd wedi eu hanafu. Ond byddai Noel yn mynd yno ei hun. Am wneud pethau ychwanegol fel hyn cafodd ei wobrwyo â'r fedal Military Cross.

Ym mis Awst 1916, aeth ei gatrwd i ymosod ar dref Guillemot yn y Somme. Y diwrnod cyntaf, gofalodd Noel am y rhai oedd wedi eu hanafu, allan yn y man agored yng nghanol y tanio, a hynny'n aml yng ngolwg y gelyn. Yn ystod y noson honno bu'n chwilio am y rhai oedd wedi eu hanafu ar y tir yn union o flaen llinell y gelyn. Er iddo gael ei anafu wrth i ddarnau o siel ei daro yn ei gefn daliodd ati'r diwrnod wedyn, a mynd hefyd i'r ffosydd blaen a chariodd filwr oedd wedi'i anafu'n ddifrifol i ddiogelwch tua 500 metr i ffwrdd. Yr ail noson aeth â pharti o 20 o wirfoddolwyr gydag ef a mentro i dir neb gan basio o fewn 20 metr i linell flaen yr Almaen er mwyn achub tri dyn arall oedd wedi'u hanafu. Ar ben hynny, yng nghanol cawodydd bwledi'r gelyn llwyddodd i gladdu cyrff dau swyddog oedd wedi'u lladd, a chasglu sawl disg adnabod. Am hyn, cafodd ei fedal Victoria Cross gyntaf.

Oherwydd ei friwiau treuliodd Noel gyfnod mewn ysbyty, ond ymhen blwyddyn wedyn, bron, ar 31 Gorffennaf 1917, roedd gyda'i fyddin yn Nhrydedd Brwydr Ypres. Cafodd ei daro yn ei ben gan ddarn o siel, ond er eu bod yn poeni ei fod wedi cracio asgwrn ei benglog gwrthododd fynd i'r ysbyty. Am ddau ddiwrnod, fe fynnodd fynd i faes y frwydr, heb orffwys na bwyta, ac achub a thrin milwyr oedd wedi cael eu hanafu. Am hyn, derbyniodd ei ail fedal Victoria Cross.

Am dri o'r gloch y bore ar 2 Awst, tra roedd yn ceisio gorffwys ychydig, fe ddisgynnodd siel ar y man lle'r oedd Noel yn gweithio. Cafodd ei anafu'n ddrwg iawn. Llwyddodd i lusgo'i hun i dwll ymochel ond ymhen dau ddiwrnod, am 1 o'r gloch bnawn Sadwrn, 4 Awst 1917, bu farw.



Ble mae dad?

Cwestiwn cyffredin. Cwestiwn sy'n cael ei ofyn a'i ateb o hyd ac o hyd. Ond sut mae ateb y cwestiwn yma i'r plant mae eu tadau wedi cael eu lladd? Sut mae ei ateb i'r 285 o blant sydd wedi colli rhiant ers i filwyr Prydain fynd i Afghanistan yn 2001: 102 yn Irac a 183 yn Afghanistan?

A sut fywyd mae plant i filwyr yn ei gael? Ydy plant eraill yn eu hedmygu? Ydy plant eraill yn eiddigeddus ohonyn nhw? Ydy plant y milwyr yn meddwl eu bod yn well na phlant eraill?

Straen. Poeni y bydd eu tad yn cael ei ladd gan y Taliban. Eu tad oddi cartref am gyfnodau hir. Gorfod help eu mam a chael mwy o gyfrifoldebau. Delio gydapost-traumatic stress disordereu tad.

Dyna sut fywyd sydd gan blant y milwyr sy'n ymladd yn Afghanistan yn ôl y rhaglen ddogfen Children of Soldiers gan Claire Corriveau.

Mae'r rhaglen yn mynd i dai pedwar teulu sy'n byw yng nghanolfan Byddin Canada ger Ontario. Mae'r hyn sy'n cael ei ddarganfod yn rhoi tipyn o sioc i'r gwylwyr sydd wedi arfer gweld swsian a chwtsio wrth i'r teuluoedd groesawu'r milwyr adref.

Un teulu oedd teulu'r milwr Scott Mills. Dywedodd ei fab, Evan Mills, ei fod yn caru ei dad ond bod bywyd yn haws pan oedd ei dad i ffwrdd gan ei fod yn gweiddi cymaint. "Mae'n ein trin ni fel mae'n trin y milwyr," meddai.

Dywedodd Madeline Mills, ei ferch, nad oes ganddi ddiddordeb mewn ymuno â'r fyddin oherwydd, 'does dim gobaith ennill beth bynnag'.

Mae Scott Mills yn cyfaddef fod bywyd yn "roller-coaster ride" i deulu.

Teulu arall sy'n cael ei bortreadu ydy teulu Sgt. Greg Kruse, gafodd ei ladd gan ddyfais ffrwydrold ddeuddydd wedi'r Nadolig 2008.

Doedd Corriveau ddim yn bwriadu beirniadu'r fyddin ond roedd arni eisiau talu sylw i'r problemau oedd yn wynebu'r teuluoedd. Dywedodd eu bod fel pe baent yn byw ar dir neb, 'Unwaith mae problem maen nhw'n cael eu gadael ar eu pen eu hun.'

Bu'n flwyddyn cyn i'r teuluoedd ymddiried ynddi. Ac roedd y plant yn dal yn amheus iawn ohoni. 'Mae'r ofn - sut bydd hyn yn effeithio ar yrfa fy nhad? - bob amser ar eu meddwl.'

Mae'r hyn sy'n cael ei ddangos yn y ffilm yn gwneud i ni feddwl sut mae plant milwyr Prydain yn teimlo.

Cafodd tad Brooke and Kai Scott, Corporal Lee Scott, o Brydain, ei ladd yn 2009 pan oedd Brooke yn wyth mis oed. Tra'n eisedd ar lin ei mam, Nikki, dywedodd Brooke, sydd bellach yn bedair oed, 'Mi wnaeth dad farw ac mae wedi mynd i'r nefoedd.'

Erbyn hyn mae Kai yn naw oed ac mae'n dweud straeon am ei dad wrth ei chwaer fach ond mae'n cael trafferth ymdopi â'i golled.

Dywedodd Nikki, 'Pump oedd Kai ar y pryd ac mae wedi bod yn cael hunllefau cas ac yn mynd i sterics ofnadwy. Mi fyddwn i'n gorfod mynd i'r ysgol i'w nôl o am ei fod yn beichio crio eisiau ei dad. Hyd heddiw, bydd weithiau'n syrthio i gysgu yn gafael yn dynn mewn llun o'i dad.'

Sefydlodd Nikki Scott yr elusen 'Milwyr Bach Scotty' er cof am ei gŵr i helpu plant sydd wedi colli rhiant mewn rhyfel.

Dywedodd, 'Yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf rydym wedi gweld effeithiau erchyll Rhyfel y Falklands ar blant a does gennym ni ddim bwriad o eistedd yn ôl a gwyllo'r un peth yn digwydd eto i blant y milwyr fu yn Irac ac Afghanistan'.

Cafodd tad Victoria Hughes, Capten Mathew Hughes, ei ladd yn Afghanistan wrth helpu milwr oedd wedi cael ei glwyfo. Roedd hynny dair blynedd yn ôl. Ar y dechrau cafodd gefnogaeth ond doedd dim i'w gael ymhen rhyw flwyddyn. 'Mi faswn i'n hoffi tase gen i rywun i droi ato pan ydw i'n teimlo'n isel,' meddai.

Mae mam Victoria, Buddug, yn aelod o'r Cynulliad erbyn hyn. Mae hi'n dadlau bod eisiau gwneud llawer mwy i helpu plant sydd wedi colli rhiant mewn rhyfel. Talodd y fyddin am addysg breifat i Victoria ond gan fod ei dad wedi marw dydy'r fyddin ddim yn talu am addysg breifat i'w brawd, Alex.



Gwared y Gwirion

Mae dau ifaciwi, Paul (Pôl), yr hynaf, a Robin (Robat) wedi dod i aros gyda modryb Joni ac un dydd aeth Joni i Brynhyfryd, fferm ei fodryb Nel, i chwarae gyda'r ifaciwis.

'Why don't you show them where you play, Joni?' medda Anti Nel.

I'r gweithdy uwchben y beudy â ni i ddechra ac i fyny'r ysgol bren oedd yn arwain i'r llofft lle roedd hi'n gynnes ac yn dywyll.

'This is where I play llongwrs and going to carchar,' meddwn i ar ôl i'r ddau stryffaglio i fyny'r ysgol. Ar y gair dyma Daisy May yn rhoi andros o fref odanom ni.

'Wot the'ell's that?' medda'r bychan a dyma fo'n gafael ym mraich y mawr.

'Only the cow,' meddwn inna, 'nothing to be ffrait.'

'This place bleedin'stinks,' medda'r hyna, 'oo wants to play in a dump like this.'

'Bleedin stinks,' medda'r bychan ar'i ôl a dyma'r ddau yn i rhuthro hi'n ôl i'r buarth.

Wel, dyma fi'n mynd â nhw i'r cwt mochyn a'r cwt llo ac allan i'r das fawr yng nghanol y cael ble'r oeddwn i'n gallu sglefrio'n braf o'r top i'r gwaelod heb ddim trafferth ond y cyfan wnaeth y ddau oedd cwyno wrth ei gilydd a deud petha'fel 'bleedin', a 'cor' a 'fflippin'ec'.

Mi oedd geiria'r rhain i gyd yn newydd jest iawn i mi. Yna dyma'r bychan yn rhoi cic i mi yn fy mhen ôl heb frifo llawer ac medda fo, 'Ere mate, wot the'ell d'you do all the time in this dump?'

'Playin' meddwn i, 'and going to school.'

'Wot, nuffink else?'

'I'm plaein'a lot in the haystack,' meddwn inna'n amddiffynol.

'In the bleedin'aystack! Listen, Kiddo!'

A dyma fo'n dechra sôn wrtha i amdano fo a Pôl yn chwara adra. Mi roeddwn nhw'n byw mewn stryd hir, hir, a bob nos wrth ddwad adra o'r ysgol mi fyddwn nhw'n rhedeg i ddrws ffrynt pob tŷ a cnocio yn y modd mwyaf ofnadwy, a chuddiad wedyn rownd y gongol, nes basa'r stryd i gyd yn rhuthro i mewn ac allan trwy'r drws ffrynt ac yn clepian drysa, ac yn rhegi nerth'u penna'. Wedyn mi fydda Robat - Robin oedd Pôl yn'i alw fo- yn tynnu bloda o'r gerddi yn ddistaw bach, ac yn'u gadal nhw ar

stepan drws nesa. Neu weithia mi fydda fo'n mynd i mewn i'r siopa mawr yn y dre a chuddiad tu nôl i'r dillad yn y lle merchaidd a neidio allan a dychryn plant bach eraill. Amball dro mi fydda'n sleifio i mewn i'r lle bydda'r merchaidd yn newid a'u dal nhw yn i nicars.

'Ere,' medda Robat, 'don't you speak English when you're by yourself?'

'No,' medda fi, 'it is Welsh I speak.'

'Does your old man speak Welsh?'

'Who?'

'Your da, your pop?'

'What is pop?'

'Oh,gawd, forggit it; let's go and play in the bleedin haystack.'

'No,' medda finna'n syth. Ar ôl clywed Robat yn deud ei stori mi oedd gen i gywilydd meddwl mod i erioed wedi gweld sglefrio lawr y das yn rhywbeth difyr i'w wneud.

'Ere,' medda Robat cyn bo hir, 'wot say we've a go on the baby cow?'

'What?'

'The baby cow.'Ave you ever been on'er back?'

'What?'

'Ere, let me show yer.'

A dyma fo'n dechra sleifio i fyny at y bustach du a gwyn oedd yn pori ac yn meindio'i fusnes yr ochr arall i'r cae. Mi oeddwn i wedi dychryn pan welais beth oedd bwriad Robat, ond fedrwn i wneud dim byd ond sbio arno fo ac mi oedd y dychryn yn ddychryn neis hefyd, mewn ffordd,achos mi faswn inna'n licio bod yn ddigon dewr i fynd ar gefn y bustach. Fedrwn i ddim peidio'i edmygu o'n hela'r bustach yn ara deg, ac o'r diwadd yn gafael yn i fwng o ac yn halio'i hun i fyny ar ei gefn o. Mi safodd y bustach yn hollol llonydd am eiliad. Wedyn dyma fo'n ysgwyd i ben yn ffyrnig ac yn i chychwyn hi rownd a rownd mewn cylch yng nghanol y cae, yn wylltach ac yn wylltach ac yn fwy ac yn fwy cyflym o hyd. Erbyn hyn mi roedd Robat yn gafael fel cranc am wddw'r bustach ac yn gweiddi mwrddwr, a'i goesau'n neidio'n ôl a blaen ac i fyny ac i lawr fel coesau dyn pren wrth i'r bustach sboncio o gwmpas. Mi oedd fy nghalon i'n curo bymthag y dwsin. O'r diwadd dyma fi'n rhedag i ffwrdd i chwilio am Anti Nel.

'Anti Nel,' medda fi, 'mae Robat yn reidio'r bustach du a gwyn.'

Ddywedodd hi ddim dim ond rhedeg at y cae bach. Pan gyrhaeddwn ni roedd yr hen fustach yn pori'n hamddenol dawel mewn congol fel tasa dim wedi digwydd a Robat yn gorfadd yn llonydd ar y glaswellt.Roedd o'n llwyd fel papur sgwennu a'i goes wedi'i phlygu yn rhyfadd o dano fo.

Mi fuo na fynd a dwad ofnadwy am hir wedyn gyda Jo'r gwas yn cario Robat i'r gegin, y doctor yn ei ecsaminio fo a dweud ei fod wedi torri ei goes a'r ambiwlans yn mynd â fo i'r hospital i gael plastar.

Ar ôl i bethau dawelu dyma Pôl yn dwad i'r tŷ a golwg wyllt ryfadd arno fo, a'i wallt am ben i ddannadd.

'I've done for the bleedin cow,' medda fo'n filain, 'it won't hurt nobody no more. Why the'ell did we ever come to this awful place. Gawd ,I wish I was at'ome. And now Robin's been killed by the bleedin cow and nothing matters no more.'

Ac, yn wir, roedd o wedi lladd y bustach gyda chyllell fara.



Ymuno ai peidio



WYT TI AM YMUNO Â'R FYDDIN?



WYTH PETH PWYSIG IAWN Y DYLET EU GWYBOD CYN YMUNO

- 1. Prif waith y fyddin ydy YMLADD. Wyt ti'n barod i LADD POBL neu gael dy LADD?**
- 2. Mae bod yn filwr yn BERYGLUS. Heblaw am gael dy ladd gelli hefyd gael TRAWMA, SALWCH neu ANABLEDD.**
- 3. Unwaith rwyf ti yn y fyddin mae hi'n anodd iawn DOD ALLAN.**
- 4. Ambell waith mae'r fyddin yn DISWYDDO milwyr yn gynnar er mwyn arbed talu pensiwn llawn.**
- 5. Wedi gadael mae hi'n ANODD BYW bywyd cyffredin eto ac mae llawer o gyn-filwyr yn DDI GARTREF.**
- 6. Rhaid DILYN GORCHMYNION yn y fyddin. Fydd gen ti ddim hawl i'th FARN DY HUN.**
- 7. Gelli gael dy anfon i ymladd rhyfeloedd ANGYFREITHLON. Cei dy gosbi am wrthod.**
- 8. Wyt ti'n barod i fyw fel sardin mewn barics ymhell o unm`n gyda lot of REOLAU a CHOSB am anufuddhau? Gelli gael dy FWLIO**



HEN SYLWADAU! OND DYDY PETHAU'N NEWID DIM!

“Cyn i ti ymuno â'r fyddin, rhaid i ti feddwl am hyn . Byddant yn dweud wrthot y cei di yrfa gan weld y byd. Ond nid fel yna y mae hi. Celwydd yw e i gyd, dim ond i dy gael i ymuno. Cafodd Gordon ei anfon yn syth i ryfel ar ôl dim ond chwe mis o hyfforddiant. Yr unig ran o'r byd welodd Gordon oedd Irac. Nid yw hi yn werth colli bywyd mor ifanc." Rose Gentle, mam Gordon Gentle a laddwyd ym Mehefin 2004 gan fom yn Basra. ”

“Pan mae pobl ifanc dan 18 oed yn ymuno â'r fyddin, gallant adael dim ond rhwng yr 2il a'r 6ed mis o wasanaeth. Wedyn rhaid iddynt aros tan eu bod yn 22 oed. Nid oes modd iddynt brynu eu hunain allan. Ni allant gael eu diswyddo. Gosodir hwy yn y carchar am fod yn absennol heb ganiatâd. ”

AT EASE, Gwasanaeth Cyngori Milwyr a'u Teuluoedd.

“Cyfaddefodd y fyddin ddoe am y tro cyntaf fod pedwar milwr a ddarganfuwyd wedi eu saethu'n farw mewn barics yn Surry efallai wedi marw fel canlyniad i fwlio a diffyg gofal a goruchwyliaeth. ”

Telegraph, Mawrth 5ed 2004. AT EASE, Gwasanaeth Cyngori Milwyr a'u Teuluoedd.

“Dangosodd adroddiad gan y Swyddfa Awdit Genedlaethol fod milwyr Prydeinig wedi mynd i Irac heb offer angenrheidiol gan gynnwys gwisg i'w hamddiffyn rhag bwledi, arfau cemegol a biolegol a pethau hanfodol eraill megis esgidiau a dillad. ”

Guardian, Ionawr 13eg 2004.

“Rhoddir triniaeth greulon i filwyr newydd eu recriwtio. Mae'r unigolyn yn cael ei osod dan bwysau corfforol a meddyliol er mwyn ei dorri cyn ei ailadeiladu i'r patrwm mae'r fyddin ei eisiau. Mae'r milwyr newydd yn cael eu bwlio ac yn gorfod gwneud tasgau hollol ddibwrpas gan gynnwys cerdded yn bell gan gario offer trwm. ”

'Design for a Life' gan Patrick Bateson and Paul Martin.

Cymdeithas y Cymod

RECRIWTIO I'R FYDDIN

Wedi cael llond bol? Methu cael gwaith? Dim byd i'w wneud yn eich ardal?
Eich ffrindiau wedi symud i ffwrdd?

Peidiwch â phoeni, ymunwch â'r fyddin!

Yn y fyddin, eich cydweithwyr fydd eich mêts! Mae byw, gweithio a theithio
gyda'ch gilydd fel tîm, weithiau dan amodau anodd, yn creu perthynas glos
iawn.

BYWYD O DDYDD I DDYDD

Mae rhywun yno i siarad gyda chi yn y llety trwy'r amser a chyfleusterau
ardderchog.

GWEITHIO DRAMOR

Ydych chi wedi breuddwydio am weithio mewn gwlad boeth a gweld y byd?
Dyma'ch cyfle! Cewch hyfforddi mewn jyngl neu ddeifio scuba yng Nghyprus!

MERCHED YN Y FYDDIN

Mae cyflogau, hyfforddiant, teithio a dyrchafiad yn union yr un fath i ddynion
ac i ferched. Mae trefniant mamolaeth da ar gael hefyd.

EICH LLIW A'CH CRED

Dydy lliw, cefndir ethnig, crefydd, rhyw na rhywioldeb yn gwneud dim
gwahaniaeth. Cewch bob cefnogaeth fydd arnoch ei angen i fod yn rhan o
dîm.

DYSGU GYDOL OES

Caiff milwyr a swyddogion barhau i ddysgu trwy eu gyrfa. Gellwch astudio
NVQ neu TGAU a hyd at lefel ôl-radd, y cyfan yn cael ei sybsideiddio gan y
fyddin.

AILGARTREFU

Mae'n Trefniant Ailsefydlu yn eich helpu i gael swydd newydd ac i ffeindio
rhywle i fyw.

AMSER RHYDD

Mae bod yn filwr yn waith trwm felly byddwch yn cael mwy o wyliau a chyfle i
deithio a gwneud chwaraeon anturus.

CYFLOG

Mae'r fyddin yn parchu milwyr. Dyna pam rydyn ni'n talu bonws am waith
arbennig. Rydych yn cael llety a bwyd am ddim felly mae eich arian yn mynd
yn bellach.

PENSIWN

Dydyn ni ddim yn cymryd arian o gyflog i dalu am bensiwn. Mae hwnnw yn
dibynnu ar hyd eich gwasanaeth a'ch cyflog pan fyddwch yn gorffen.



Milwyr benywaidd yn ennill calonau

Roedd arddangosfa luniau Ali Baskerville, y cyn-aelod o'r awyrlu, yn un anghyffredin iawn. Pam tybed? Lluniau a dynnwyd yn Kabul a Helmand oeddynt. Dim yn anghyffredin yn hynny, meddech chi. Nac oes! Ond yr hyn oedd yn eu gwneud yn unigryw oedd mai lluniau o ferched yn ceisio creu perthynas â chymunedau yn Afghanistan oeddent.

Treuliodd Ali Baskerville chwech wythnos yn tynnu lluniau o Swyddogion Cyfathrebu Benywaidd yn gweithio gyda'r fyddin Brydeinig yn Affghanistan. Roedd saith o ferched wedi gwirfoddoli i wneud y gwaith - 5 ohonynt yn filwyr llawn amser, un yn aelod o Fyddin y Tir ac un yn athrawes yn y Fyddin.



Merched yn gwirfoddoli i adael eu bywydau ym Mhrydain i weithio gyda chymunedau yn Affghanistan.

Mae'r merched - sydd yn eu 30au - yn treulio deunaw mis i ddysgu'r iaith Pashto yn Lloegr cyn mynd i Afghanistan.

"Dydy merched ddim yn cael eu ystyried fel bygythiad allan yn fan'na,' meddai Ali, 'felly maen nhw'n cael eu derbyn gan y cymunedau yn well na dynion. Mae gan y rhai sy am wneud y gwaith yma dân yn eu boliau ac maen nhw'n cymryd y gwaith o ddifri.'

Diffyg preifatrwydd

Dywed Ms Baskerville fod y mrched sy'n gwasanaethu yn Affghanistan yn gallu delio gydag amgylchedd caled a pheryglus Afghanistan yn wych.

"Does dim preifatrwydd. Mae'n rhaid iddyn nhw frwshio eu dannedd ochr yn ochr â'r dynion a hyd yn oed ddefnyddio'r un babell i gael cawod. Ond maen nhw'n addasu yn dda iawn. Mae un o fy lluniau yn dangos merch yn dod allan o'r babell honno gydag arwydd y tu allan yn rhybuddio bod merch yno! Y merched eu hunain wnaeth yr arwydd

"Mae'n brofiad gwahanol iawn iddyn nhw. Gadawodd y ferch sydd ym Myddin y Tir, er enghraifft, ei gwaith fel nyrs mewn adran ddamweiniau mewn ysbyty yn Llundain i wirfoddoli yn Afghanistan."



Synnodd Ms Baskerville, hefyd, at allu'r merched i addasu i fywyd mewn gweryll "Mae'n a babell mosgito ac fe orchuddiodd y merched hi gyda deunydd i wneud y lle yn fwy preifat a'r hyn ryfeddodd fi fwyaf oedd sut roedden nhw wedi troi rhan o'r babell yn ystafell fyw ble roedden nhw'n gallu gwyllo Downton Abbey."

Sylwodd eu bod wedi mynd â dillad lliwgar gyda nhw. Roedden nhw am barhau i edrych yn fenywaidd.

Pan aeth y merched i'r arddangosfa bu'n rhaid i Ms Baskerville eu cyflwyno. Doedd neb yn eu hadnabod gan eu bod yn edrych mor fenywaidd mewn bywyd go iawn! 'Mae pobl yn aml yn dweud bod merched sy'n filwyr yn butchond dydy hynny ddim yn wir o gwbl. Roedd y merched wnes i dynnu eu lluniau yn hardd ac yn osgeiddig.'